

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG
GYNHALIWYD 4 CHWEFROR 2021 AM 7.30YH**

1. Yn bresennol: Y Cyng Meinir James (Cadeirydd), Janet Knott, Elfyn Williams, Richard John, Viv Davies, Philip Davies ac Arfon Davies (Clerc).

Ymddiheuriadau: Y Cyng Mair Stephens, Shan Rees, Rheinallt Jones, Eifion Jones a Hugh Anderson

2. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

3. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 7fed Ionawr 2021.

4. Materion yn Codi

1. Pryderon Diogelwch Priffyrdd ar y B4309 ym Mancycapel – Nododd y Cyngor fod damwain ddifrifol wedi digwydd y diwrnod hwnnw ym Mancycapel gan arwain at gerbyd yn gwrthdaro a chartref yn y pentref. Nododd y Clerc nad oedd y gwaith a oedd wedi addo yn yr ardal wedi'i wneud eto ond eu bod i fod i ddod ym mis Mawrth neu Ebrill. Cytunwyd y dylai'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir mewn perthynas â'r ddamwain a gofyn am wneud gwaith mwy estynedig i gynorthwyo diogelwch ar y ffyrdd yn yr ardal.

2. Pryderon am ddiogelwch y ffyrdd ar gyffordd Llandyfaelog â'r A484 – Roedd y Cyngor yn aros am ymgynghoriad ar y gwaith gwella cyffordd arfaethedig. Nodwyd bod y Cyngor Sir yn trefnu arolwg topograffig o ardal y gyffordd ac yn dal i obeithio cwblhau gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Nodwyd.

3. Prosiect uwchraddio goleuadau cyhoeddus LED – Derbyniodd y Cyngor gadarnhad bod contractwyr bellach wedi cwblhau'r gwaith. Nodwyd.

4. Atgyweirio goleuadau ffordd cerdded – Roedd y Cyngor yn aros am atgyweirio'r golau panel solar yn Idole. Disgwylid dyddiad hefyd ar gyfer gwaith yn Ysgol Bro Myrddin. Nodwyd.

5. Llwybr troed 29/3 - Rhwng Croesyceiliog a Phentrepoeth – Nododd y Cyngor Sir na dderbyniwyd cais i ddargyfeirio'r llwybr a bod y cynnig hwn wedi'i gau felly. Roedd y llwybr presennol yn croesi pwll mewn un eiddo ond ni theimlwyd bod hyn yn broblem gan y gallai cerddwyr gerdded o amgylch hyn. Cadarnhawyd yr angen i ddarparu arwydd dyn cerdded newydd gan y Cyngor Sir gyda hyn yn cael ei roi ar y rhestr gwaith sydd i'w wneud. Nodwyd.

6. COVID-19 – Trafododd aelodau'r achosion parhaus o COVID-19 a'r effaith ar y Gymuned.

7. Cais Cynllunio W/40717, Maesglasnant, Cwmffrwd – Cadarnhaodd y Clerc fod y cais yn parhau i gael ei adolygu gan y Cyngor Sir. Nodwyd.

8. Llwybr troed 29/1/1 Cwmffrwd tuag at Cincoed – Nid oedd y Cyngor Sir wedi gallu symud y mater yn ei flaen hyd yma. Nodwyd.

9. Uchafswm Cyflymder Cwmale – Roedd y Cyngor yn aros am gyfarfod o'r Gweithgor Cyflymder er mwyn ystyried ymestyn yr ardal 30mya.

10. Cynnig i adleoli colofn oleuadau ar safle datblygu tai yng Nghroesyceiliog – Disgwylid am ddatblygiadau pellach gyda'r cynnig.

11. Llygaid Cathod - A484 Llandyfaelog i Gaerfyrddin – Disgwylwyd am ragor o wybodaeth am y mater.

12. Tipio anghyfreithlon ar dir preifat yn Llandyfaelog – Derbyniwyd diweddariad gan Dîm Gorfodi Cyngor Sir Caerfyrddin eu bod yn teimlo mai'r unig gamau y gallent eu cymryd oedd o dan A215 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref mewn perthynas â thir / eiddo blêr sy'n effeithio ar amwynder yr ardal. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu cyflwyno rhybudd i berchennog y tir, na theimlwyd byddai hyn yn briodol oherwydd yr amgylchiadau. Nodwyd hyn a'r gobaith oedd y gellir datrys y mater yn fuan.

13. Cais Cynllunio PL/00750 - Nantyogetre Isaf, Llandyfaelog - Cadarnhaodd y Clerc fod y cais yn parhau i gael ei adolygu gan y Cyngor Sir. Nodwyd

14. Cais Cynllunio PL/00881 – Tir ger Cywion Bach, Idole, Cerfyrddin SA32 8DG – Cadarnhaodd y Clerc fod y cais wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Sir gydag Amodau Cynllunio mewn lle mewn perthynas â gofynion mynediad a lledaenu gwelededd. Nodwyd.

15. Rhoddion / grantiau a wnaed yng nghyfarfod mis Rhagfyr – Derbyniwyd llythyrau diolch gan Tenovus. Nodwyd.

16. Diwrnod y GIG, Gofal Cymdeithasol a Gweithwyr Rheng Flaen - 5ed Gorffennaf 2021 - Bydd y mater yn cael ei ystyried ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

17. Gwter / draen ar ben llethr Llandyfaelog - Roedd y Cyngor Sir wedi ymweld â'r ardal a byddent yn gwneud gwaith ailosod yn yr ardal i wella'r draeniad yn y lleoliad hwn. Byddai hyn yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl. Nodwyd.

18. Pyllu dŵr ar hyd Heol y Lan - Roedd y Cyngor Sir wedi ymweld â'r ardal a byddent yn clirio ffosydd ar ochr y ffordd i wella'r draeniad yn y lleoliad hwn. Byddai hyn yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl. Nodwyd.

19. Erydiad Lôn Cwmale - Roedd y Cyngor Sir wedi ymweld â'r ardal a byddent yn gwneud gwaith ailosod yn yr ardal cyn gynted â phosibl. Nodwyd.

20. Gorfodi Cynllunio, eiddo mewn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth -

Cadarnhaodd Tîm Gorfodi'r Cyngor Sir fod y mater yn achos agored gyda chais fod y garafán a'r sied yn cael eu symud. Nid oedd hyn wedi'i symud ymlaen i orfodaeth ffurfiol hyd yma oherwydd cyfyngiadau COVID. Nodwyd.

5. Gohebiaeth

- 1. Cyngor Sir Caerfyrddin** - Hysbysiad o gau ffordd yng Nghwmale rhwng y 5ed a'r 7fed Ebrill er mwyn gwneud gwaith i osod dwythell newydd ar draws y ffordd. Nodwyd.
- 2. Cyngor Sir Caerfyrddin** - Gwybodaeth am Fforwm Cyswllt Cynghorau Cymuned a Thref a gynhaliwyd ar 26ain Ionawr. Ymddiheurodd y Cynghorydd Elfyn Williams, oherwydd problemau TG, nad oedd wedi gallu mynychu'r sesiwn. Nodwyd.
- 3. Un Llais Cymru** - Arolwg Cofrestrfa Tir EM o Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi cwblhau'r arolwg.
- 4. Cyngor Iechyd Cymunedol Hywel Dda** - Cais am wybodaeth ar ddyddiadau cyfarfodydd y Cyngor. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi darparu'r manylion hyn. Nodwyd.
- 5. Llywodraeth Cymru** - Canllaw Cyfathrebu Cyfryngau Digidol. Nodwyd.
- 6. Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
- 7. Cyngor Sir Caerfyrddin** - Gwybodaeth am wythnos lesiant, cyfres o weithgareddau ar-lein yn cael eu cynnal yr wythnos yn dechrau 1af Chwefror. Nodwyd.
- 8. Banc Barclays** – Datganiadau. Nodwyd.

9. **Brenig Davies** - Llythyr yn darparu manylion Taith Gerdded Llwybr Treftadaeth bosibl mewn perthynas â Peter Williams. Gofynnodd y llythyr am wybodaeth mewn perthynas â'r mater a chyfleusterau posibl lle gallai'r rhai sy'n cymryd rhan barcio ac yn y blaen. Bydd y Clerc yn cysylltu â Mr Davies i drafod y cynnig.

6. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor

1. Nododd y Clerc derbyniad o 3 bris ar gyfer archwiliad blynyddol o ardaloedd chwarae fel a ganlyn:
 - The Play Inspection Company £69.50
 - Cyngor Sir Gaerfyrddin £80.00
 - Rospa £68.50Cytunwyd i gadw gwasanaethau'r Play Inspection Company oherwydd natur gynhwysfawr yr adroddiadau a dderbyniwyd.
2. Nododd y Clerc derbyniad o 4 bris ar gyfer contract torri gwair 2021 fel a ganlyn:
 - Cyngor Sir Gaerfyrddin £1,940.00
 - Wrenvale Nurseries £2,220.00
 - A and E Garden Services £2,080.00
 - Mark's Gardening Services £2,000.00Cytunwyd i gadw gwasanaethau Mark's Gardening Services ar yr amod bod y ddogfennaeth Trwydded Trosglwyddo Gwastraff yn cael ei darparu. Os na fydd yn dod i law erbyn 1af Mawrth, bydd y contract yn cael ei darparu i Gyngor Sir Gaerfyrddin.
3. Cadarnhaodd y Clerc byddai gosod y postyn giât ganolog newydd a'r pyst ffens bren yn cael eu gwneud o ddydd Llun 8fed Chwefror 2021. Nodwyd
4. Cadarnhaodd y Clerc fod cyfreithwyr cwmni Yswiriant y Cyngor yn bwrw ymlaen â'r hawliad am ad-dalu cost y difrod ar y ffens allanol gan gynnwys gormodedd y Cyngor o £250.00. Awdurdodwyd y Clerc i gwblhau unrhyw waith papur angenrheidiol fel rhan o'r hawliad.
5. Nododd y Clerc fod gwaharddiad ysmegu llwyr yn cael ei weithredu ym mhob man chwarae o'r 1af Mawrth. Roedd angen arddangos arwyddion. Bydd y Clerc yn gosod arwydd wedi'i lamineiddio mewn manau ac yn darparu dyfynbris ar gyfer arwydd mwy parhaol yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth.
6. Nodwyd difrod pellach ar bibell draenio cysgodfa'n bysiau Bancycapel. Roedd Atgyweiriwr y Cyngor yn edrych i mewn i'r mater gyda'r bwriad o newid lleoliad y bibell oherwydd yr angen cyson i atgyweirio'r eitem hon.
7. Cadarnhaodd y Clerc fod Atgyweiriwr y Cyngor wedi palu allan y gwelyau grug yn y 3 ardal amwynder a'i fod bellach yn aros i ailagor canolfannau garddio i brynu planhigion newydd.

7. Cytundeb yr Atgyweiriwr

Nodwyd y Cynghorydd Meinir James ei diddordeb yn y mater hwn a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem. Cymerodd y Cynghorydd Elfyn Williams y Gadair i ystyried y mater.

1. Cadarnhaodd y Clerc 21 awr a weithiwyd ym mis Rhagfyr a 28 awr ar gyfer mis Ionawr gyda chyfanswm taliad o £735.00 yn cael ei gytuno.
2. Ystyriodd y Cyngor cytundeb yr Atgyweiriwr ar gyfer 2021-22 a chytunwyd i ymestyn cytundeb Michael Leefe am flwyddyn arall.

8. Adroddiad Cyllid 2020-21

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb 3ydd chwarter ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 wedi'i diweddarau i diwedd mis Ionawr. Cynhaliodd y Cyngor y monitro chwarterol a derbyniwyd yr adroddiad.

9. Adroddiad Blaenoriaethau a Precept 2021-22

Nododd y Clerc, ar ôl derbyn gwybodaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin am gostau goleuadau troedffordd debygol ar gyfer 2020-21 a 2021-22, roedd yn debygol i arwain at ostyngiad o tua £1,071 a £978 yn y costau am y 2 flynedd ariannol. Cadarnhaodd y Clerc byddai hyn yn golygu bod y cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y Flwyddyn Ariannol 2020-21 yn debygol o fod yn agosach at £23,000 na £22,000.

Ystyriodd y Cyngor yr adroddiad a chytunodd i ofyn am braesept o £23,500 ar gyfer 2021-22 (£23,000 yn 2020-21). Byddai'r swm yn arwain at Dreth Gyngor Band D o £36.73 (£36.02 yn 2020-21). Awdurdodwyd y Cadeirydd a'r Clerc i gwblhau a llofnodi'r gwaith papur angenrheidiol i'w ddychwelyd i Gyngor Sir Caerfyrddin.

Cadarnhawyd bod cronfeydd wrth gefn penodol yn aros fel y cytunwyd yng nghyfarfod mis Ionawr.

10. Cystadleuaeth Gardd 2021

Trafododd y Cyngor a oedd yna bosibilrwydd o drefnu Cystadleuaeth Gardd ar gyfer 2021. Cadarnhaodd y Clerc y sefyllfa bresennol mewn perthynas â chyfyngiadau COVID a sut y byddent yn effeithio ar unrhyw ddigwyddiad posibl pe na bai'n cael ei leihau'n fuan iawn.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd na fyddai'n bosibl cynnal cystadleuaeth eto yn 2021 ac edrychir i drefnu digwyddiad ar gyfer 2022.

11. Adroddiad Cynllun Iaith Gymraeg

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad blynyddol drafft i Gomisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfiaid y Cyngor â'i Gynllun Iaith Gymraeg. Cytunwyd ac arwyddwyd yr adroddiad gan y Cadeirydd i'w ddychwelyd.

12. Cynllunio

- 1. PL/01095** - Estyniad garej - 22 Santes Ann, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA31 2NA. Dim gwrthwynebiadau.
- 2. PL/01174** - Cartref ar wahân - ail gyflwyno gwrthodiad PL/00066 - Plot 10, Croesyceiliog, Caerfyrddin, SA32 8DS. Dim gwrthwynebiadau.

13. Cyfrifon

Cytunwyd y taliadau canlynol

1. Michael Leefe £735.00 Taliad Rhagfyr – Ionawr (gweler eitem 7)

2.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Ionawr a chostau	£631.80 £18.00	£10.80 £23.76 £47.50 £7.00	£738.86	£137.20	£0.00	£601.66

14. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Bydd y Clerc yn codi'r mater parhaus o ladradau cŵn gyda'r Heddlu.

2. Bydd y Clerc yn gofyn am ddiweddariad gan y Cyngor Sir ar gamau gweithredu mewn perthynas â'r pryderon ynghylch diogelwch ffyrdd ar gyffordd Ffordd Bolahaul ar yr A484 yng Nghwmffrwd.

Cynhelir Cyfarfod nesaf y Cyngor Nos Iau 4ydd Mawrth 2021.